




Llun 4



Llun 5

(Parhad o dudalen 8)

mewn arwerthiant yn Canterbury (cais dros y ffôn) rai misoedd yn ddiweddarach. (Llun 4)

Os yw'r peth i ddal y fwydlen yn dangos llun yn ymwneud â hela neu bysgod, mae ei bris yn mynd i fyny. Mae'r rhain yn cael eu casglu gan gasglwyr eraill. Hefyd mae amryw ohonynt wedi eu gwneud gan Samson Morden, oedd yn enwog ar ddechrau'r ugeinfed ganrif am weithio mewn arian. Lluniodd Samson Morden dylluanod i ddal bwydlen, pedair mewn boc, sydd yn cael sylw gan bobol yn casglu tylluanod! (Llun 5)

Roeddwn yn awyddus iawn i gael hyd i ddarn â llun merched yn y wisg Gymreig arno. Cefais hyd i ddarn siâp plât bychan â llun merched Llangollen arno, ond ddim o'r wisg Gymreig! Yna, yn 1998, cafodd ffrind ddarn bach â llun dwy ddynes yn y wisg Gymreig mewn arwerthiant yn Birmingham. Darn arian ac enamel o 1907 ydyw, ond nid oes gennyf fwy o wybodaeth na dim syniad o ba ffatri y daeth. (Llun 6)

Dros y blynyddoedd, yr oeddwn yn awyddus i ddarganfod mwy o gefndir hanesyddol i'r peth i ddal y fwydlen. Pam y dechreuodd y fath ffasiwn? Yn 2002, cysylltais ag Amgueddfa Victoria ac Albert yn Llundain. Gyrrais e-bost i ofyn a oedd ganddynt gasgliad o'r pethau i ddal bwydleni. Cefais ateb gan guradur yn yr Adran Fetel, Ann Eatwood. Nid oedd ganddynt gasgliad, meddai, ond os hoffwn ymweld â'r Amgueddfa, cawn ddarllen llyfrau allai roi eglurhad imi am eu hanes. Trefnais i ymweld â'r Amgueddfa a chefais ddiwrnod hynod ddiddorol yno. Agorwyd fy llygaid am y tro cyntaf i'w cefndir. Ceisiaf egluro yn gryno!

Yr arferiad wrth wledda, hyd at tua 1850, oedd i'r gweision roi'r bwyd i gyd am y wledd ar y bwrdd mewn dysglau crand â chaeadau arnynt, a gadael yr ystafell, ac i'r gwsteion helpu eu hunain. Daeth Llysgennad Rwsia i Baris a brolio eu ffordd nhw o wledda! Yno, roedd y gweision yn aros drwy'r wledd ac yn gweini ar y gwsteion. Trefnid y wledd fel bod un cwrs yn dilyn y llall, a'r gweision yn ei gyflwyno. Wrth ochr pob safle bwyta, rhoddid 'Cerdyn y Fwydlen', er mwyn i'r gwsteion wybod o flaen llaw beth a geid i'w fwyta. Derbyniodd y Llys ym Mharis y syniad newydd, ac mewn ychydig amser daeth i Brydain. Fel hyn y dechreuodd yr arfer o ddefnyddio 'Cerdyn y Fwydlen' fel y'i gelwir. Ceir disgrifiad ohonynt yn yr argraffiad cyntaf, 1874, o lyfr Mrs Beeton ar *Household Management*. Cyn hir, cafwyd pethau i ddal y bwydleni ac yn ôl yr amrywiaeth sydd ar



Llun 6

gael, roeddnt yn boblogaidd iawn.

Yn Chancery Lane yn Llundain mae'r Silver Vaults, grŵp o hanner cant o siopau tanddaearol, i gyd yn gwerthu henebau arian. Bwm yn holi'r gwerthwyr am y pethau i ddal bwydleni. Gwelais lawer iawn ohonynt ar werth a phob un yn

wahanol ac yn newydd i mi. Soniais fy mod yn eu casglu a bod gennyf gannoedd ohonynt. Meddai un dyn, 'Dydych chi ddim ond wedi crafu'r wyneb. Gan mlynedd yn ôl roeddnt yn eitemau pob dydd, ac yr oedd miloedd ohonynt ar gael'. Mae gwir angen ymchwilio'r maes.

RHODDION

Wyn Roberts, Pwllheli.	£3.00	Y Parch H. D. a D. H. Hughes, Aberhonddu.	£3.00
Beryl Hall, Caerdydd.	£2.50	D. G. Lloyd Hughes, Pencader.	£3.00
Heulwen Jones, Hen Golwyn, Conwy.	£3.00	Mrs M. M. Jones, Croesoswallt.	£3.00
Delyth Enaf.	£5.00	Alun a Mair Hughes, Llanymawddwy.	£3.00
J. Elwyn Hughes, Caernarfon.	£3.00	Mair Edwards, Y Parc, Y Bala.	£3.00
J. E. Davies, Bryn Adda, Bangor.	£4.00	Mrs Rh. Grey Davies, Cefn Mawr, Wrecsam.	£3.00
Dafydd Jones, Yr Hen Bost, Blaenau Ffestiniog.	£2.50	J. T. ac S. E. Jenkins, Llandysul.	£3.00
Dr W. Linnard, Radyr, Caerdydd.	£10.00	Mrs Betty A. Ellis, Penygroes.	£5.00
B. T. R. Dafis, Abertawe.	£5.00	Y Parch. P. de La Haye, Y Bala.	£10.00
Don Llywellyn, Pentyrch.	£5.00	W. Jones-Parry, Caerdybi.	£8.00
Geraint Jones, Trefor.	£3.00	R. V. Davies, Cwm-Nedd.	£8.00
S. Davies, Caerdydd.	£3.00	I. H. Pritchard, Nefyn.	£8.00
Mr J. L. Hughes, Llangefni.	£3.00	J. L. ac A. E. James, Pontypridd.	£8.00
Eifion Davies, Betws y Coed.	£5.00	Mrs A. G. Williams, Porthmadog.	£12.00
W. Jones, Bodwrog, Caerdybi.	£5.50	A. O. Griffiths, Porthaethwy.	£10.00
Handel Jones, Llanymddyfri.	£3.00	D. C. Jones, Caerfyrddin.	£10.00
Einir Wyn Williams, Pwllheli.	£3.00	Mrs Gwenllian Jones, Caernarfon.	£20.00
R. S. Prichard, Y Groeslon.	£10.00	Miss J. B. Williams, Porthaethwy.	£20.00
Robin Gwyndaf, Treganna, Caerdydd.	£8.00	Mrs Megan Lloyd Williams, Cwm Ystradllyn.	£8.00
Elinor Bennett Wigley, Bontnewydd.	£8.00	Mr a Mrs J. Leeding, Taliesin, Machynlleth.	£3.00
Dewi W. Williams.	£10.00	Mr H. A. Willimas, Clynnog Fawr, Caernarfon.	£3.00
Hafina Clwyd, Rhuthun.	£25.00	Mr T. E. Griffiths Caethro.	£3.00
J. A. a B. J. Hughes, Bwlch Tocyn, Pwllheli.	£5.00	Y Parch. John Owen, Bethesda.	£5.00
D. H. Ebeneser, Godre'r Graig, Abertawe.	£2.00	Mr D. D. Williams, Abertawe.	£3.00
Brynmor Jones, Rhiwbina, Caerdydd.	£2.00	Y Parch. H. Hughes.	£3.00
Di-enw.	£2.50	Mrs Nanw Williams, Cricieth.	£10.00
Bleddyn Jones, Y Groeslon, Caernarfon.	£10.00	Mr Cyril Jones, Llanwrda.	£10.00
T. Ceiri Griffith, Chwilog, Pwllheli.	£15.00	Mr W. Jones Parry, Caerdybi.	£8.00
J. W. Lewis, Moelfre, Ynys Môn.	£2.00	Mrs Gwenno M. Parri, Llanaelhaearn.	£5.00
W. L. ac R. Morgan, Rhydaman.	£3.00		